Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Cymunedol YMCA Cymru
# Tŷ Cleeve
# Cilgant Lambourne
# Parc Busnes Caerdydd
# Llanisien
# Caerdydd
# CF14 5GP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae tua 6,000 o ddysgwyr yng Ngholeg Cymunedol YMCA Cymru, ac mae 75% o'r rhain yn ddynion a 25% yn ferched. Daw llawer o'r dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed, ac nid yw llawer ohonynt bob amser wedi bod yn llwyddiannus yn eu profiadau dysgu blaenorol. Mae'r coleg yn cynnig dysgu i droseddwyr a gweithwyr ieuenctid yn bennaf. Cynigir darpariaeth lai i ddysgwyr cymunedol hefyd. Mae holl ddysgwyr y coleg yn rhan-amser ac maent yn mynychu cyrsiau mewn amrywiaeth o leoliadau allymestyn a chymunedol. Mae'r coleg yn gweithredu system gyflwyno hyblyg, â'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mynychu cyrsiau byr neu brofiadau dysgu. Mae mwyafrif y cyrsiau hyn wedi'u hachredu.

Y coleg yw'r darparwr mwyaf o ran hyfforddiant cychwynnol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr sy'n droseddwyr ar orchmynion di-dâl. Mae'n cyflwyno dysgu ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ac yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'i waith mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a gwasanaethau'r trydydd sector ledled Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae hon yn ddarpariaeth ragorol oherwydd:

- y safon a'r dilyniant rhagorol parhaus a gyflawnir gan ddysgwyr;
- gwelliant mewn medrau sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr;
- y gyfatebiaeth ragorol barhaus rhwng rhaglen y coleg a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned;
- recriwtio niferoedd uchel o ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig ledled Cymru;
- y ffyrdd y mae'r coleg yn gweithio i gefnogi partneriaid i gyflawni deilliannau da iawn ar gyfer dysgwyr, gan eu helpu i gyflawni nodau personol a phroffesiynol;
- y ffyrdd y caiff anghenion dysgwyr eu nodi a darpariaeth ei chreu sy'n ymateb yn dda iawn i'r anghenion hyn; a'r
- defnydd da iawn a wna'r coleg o ddata sy'n helpu iddo gynllunio i sicrhau mai'r dysgwr sydd wrth wraidd y ddarpariaeth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn rhagorol oherwydd:

- y cyfraddau cyflawniad a chyrhaeddiad cyson uchel ar gyfer dysgwyr;
- ymrwymiad hirsefydledig y coleg at sicrhau mai anghenion ei ddysgwyr sydd wrth wraidd ei egwyddorion a'i ethos rheoli;
- y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i welliant parhaus a welir ar draws y coleg; ac
- ymrwymiad y llywodraethwyr i fonitro ac adolygu gweledigaeth a gwaith y coleg.

## Argymhellion

Dylai'r coleg:

A1 ddatblygu gwaith i wella cyfleoedd medrau sylfaenol a hanfodol i bob dysgwr;

A2 helpu tiwtoriaid i nodi a datblygu ffyrdd o ymwreiddio'r dimensiwn Cymreig mewn mwy o weithgareddau wrth eu cyflwyno; ac

A3 ehangu ymgysylltiad ar lefel strategol i hyrwyddo'r arfer dda yn y coleg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr arolygydd arweiniol yn gofyn i'r coleg ddarparu astudiaethau achos arfer dda fel enghreifftiau o arfer ragorol a fydd yn ymddangos ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae pob dysgwr yn cwblhau tasgau a gweithgareddau yn dda iawn, ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud hynny i safon uchel iawn. Ar hyn o bryd, caiff 57% o'r dysgwyr eu recriwtio o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru ac mae llawer o'r dysgwyr hyn yn dechrau o fannau cychwyn isel. Mae cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau llwyddiannus yn ardderchog. At ei gilydd, mae cyfraddau cyrhaeddiad a chwblhau yn 99% a chyfraddau cwblhau llwyddiannus yn 98%. Mae dysgwyr yn y coleg wedi cynnal eu safonau uchel ers yr arolygiad diwethaf.

Gall bron pob un o'r dysgwyr, yn enwedig mewn dysgu troseddwyr a gwaith ieuenctid, adnabod eu cyflawniadau a'r cynnydd yn eu dysgu yn dda iawn.

Mae dysgwyr sy'n droseddwyr sy'n dechrau cyrsiau yn aml yn amharod i fynychu sesiynau dysgu, ond buan y mae llawer o'r dysgwyr hyn yn cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan y coleg a daw llawer ohonynt yn ddysgwyr brwdfrydig o fewn cyfnod byr ar ôl cofrestru ar gyrsiau.

Mae bron pob dysgwr, yn enwedig y rhai mewn dysgu troseddwyr a gwaith ieuenctid, yn gallu datblygu medrau sy'n gwella eu galluoedd i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi gwella eu medrau sylfaenol, allweddol a hanfodol.

Trwy wneud defnydd da o asesiadau medrau sylfaenol cychwynnol a gynhaliwyd o ganlyniad i gais y Gronfa Gwella Ansawdd a sefydlwyd yn ddiweddar[1], gall dysgwyr prosiect mewn cyrsiau gwaith ieuenctid adeiladu eu medrau. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau sylfaenol mewn llythrennedd (darllen ac ysgrifennu) ac mewn medrau siarad, gwrando a meddwl hefyd. Mae'r cymorth hwn yn helpu dysgwyr i symud yn hyderus i lefelau dysgu uwch. O ganlyniad, mae lleiafrif ohonynt yn gwella eu llwyddiant dysgu ar lefel 3.

Mae dysgwyr ar gyrsiau Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS) yn gwneud cynnydd da iawn yn datblygu medrau sydd eu hangen i newid eu technegau addysgu a chyflwyno. Mae ganddynt ddealltwriaeth well o arddulliau ac anghenion dysgu eu dysgwyr eu hunain hefyd.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae llawer mwy o ddysgwyr yn defnyddio Cymraeg yn eu gwaith. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu o 1.2% o ddysgwyr i 2.4%. Fodd

[1] QIF – Y Gronfa Gwella Ansawdd. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn gwahodd darparwyr i wneud cais am gyllid prosiect i wella ansawdd y ddarpariaeth. Cafodd y coleg gyllid i ddatblygu cyflwyno medrau sylfaenol i ddysgwyr gwaith ieuenctid.

bynnag, mae ychydig bach iawn o ddysgwyr yn dweud yn yr arolwg dysgwyr nad yw staff bob amser yn rhoi cyfleoedd i ddewis cymorth trwy eu dewis iaith.

**Lles: Rhagorol**

Caiff agweddau cadarnhaol iawn gan ddysgwyr at eu profiadau dysgu eu dangos o'r arolwg dysgwyr. Dywed naw deg wyth y cant o ddysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu'n fawr, a'u bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn eu lle dysgu. Mae bron pob dysgwr yn cytuno'n gryf bod eu dysgu wedi helpu iddynt wella eu medrau bywyd.

Mae pob dysgwr mewn dysgu troseddwyr yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch yn eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn gwaith ieuenctid a dysgu troseddwyr yn dilyn amrywiaeth dda o gyrsiau byw yn iach sy'n ymwneud, er enghraifft, â chamddefnyddio cyffuriau, iechyd meddwl, lles cymdeithasol, medrau meddwl a rheoli dicter. Dywed llawer o ddysgwyr mewn dysgu troseddwyr fod y cyfleoedd a gânt i ddod yn ddysgwyr wedi gwella eu gallu i ddeall sut i gadw eu hunain yn dda ac yn iach. Mae gan ddysgwyr mewn gwaith ieuenctid ddealltwriaeth dda o sut i weithredu fel modelau rôl da ar gyfer y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw a sut i gadw'r bobl ifanc hynny yn ddiogel.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau PTLLS a chyrsiau gwaith ieuenctid yn cefnogi ei gilydd yn dda iawn mewn dosbarthiadau ac maent yn defnyddio'r cyfleoedd yn dda i rannu syniadau sy'n cefnogi datblygiad eu harfer eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr sy'n droseddwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r cyfle i ailymweld â'r dysgu. Mae hyn yn effeithiol iawn o ran helpu llawer o'r dysgwyr hyn i ddatblygu strwythur a gwella mewnwelediad ar eu bywydau.

Mae ystod dda o ddysgwyr yn mynychu grwpiau ffocws, lle gallant gyfrannu at drafodaethau am y ffordd y caiff y coleg ei redeg. Mae'r coleg wedi ehangu'r aelodaeth ar ei Fwrdd Llywodraethwyr trwy wahodd dysgwr i ddod yn llywodraethwr.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr fod eu cyrsiau wedi eu helpu i gymryd rhan yn eu cymunedau. Mae llawer o ddysgwyr mewn gwaith ieuenctid, dysgu troseddwyr a'r cwrs PTLLS yn dangos datblygiad da iawn yn eu gallu i weithio mewn cymunedau a helpu pobl eraill. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gweithio fel gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r coleg yn darparu ystod o gyrsiau â ffocws da iawn sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn effeithiol.

Mae'r coleg a'i bartneriaid yn adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd, gan roi ystyriaeth dda i ddatblygiadau addysgol a pholisi newydd. Mae'n trefnu cyflwyno'r cwricwlwm yn dda iawn, ac yn defnyddio profiad partneriaid, fel Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, yn effeithiol iawn i ddatblygu ystod briodol o gyrsiau achrededig. Er enghraifft, mae'r coleg wedi sicrhau achrediad trwy Agored Cymru ar gyfer cyrsiau presennol a

gyflwynir gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Mae hefyd wedi datblygu cyrsiau achrededig unigol sy'n ymateb yn dda iawn i anghenion troseddwyr unigol.
O ganlyniad, mae'r coleg yn cynnig ystod eang o unedau achrededig yn seiliedig ar fedrau i ddysgwyr sy'n droseddwyr, sy'n galluogi'r dysgwyr hyn i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, beth bynnag fo'u cefndir addysgol. Mae'r rhaglenni Sgiliau Dyfodol a Sgiliau Dyfodol a Mwy hefyd yn paratoi dysgwyr sy'n droseddwyr i ddatblygu medrau gwaith a dinasyddiaeth ochr yn ochr â medrau rhianta a ffyrdd o reoli dicter. Mae'r cyrsiau hyn yn ychwanegu'n dda at y cwricwlwm a gynigir.

Mae cyrsiau a gynigir ar lefelau 2 a 3 mewn gwaith ieuenctid yn bodloni anghenion yr awdurdodau lleol a'r sefydliadau gwirfoddol niferus ledled Cymru yn effeithiol. Maent yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer rolau gweithiwr ieuenctid ac ar gyfer dilyniant i raddau gwaith ieuenctid a chymunedol addysg uwch. Gall y credydau o dystysgrif lefel 3 mewn gwaith ieuenctid gael eu trosglwyddo gan ddysgwyr i ennill credyd fel rhan o'u cwrs gradd o ddwy brifysgol yng Nghymru. Mae'r cwrs PTLLS yn datblygu medrau tiwtoriaid yn effeithiol ar draws ystod eang o gyrff statudol a gwirfoddol.

Mae'r coleg yn rhoi sylw da i'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Gall dysgwyr ddilyn llawer o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau wedi'u hysgrifennu'n dda mewn deunyddiau cwrs yn rhoi cyfle i diwtoriaid gyflwyno'r dimensiwn Cymreig. Mae'r coleg wedi gweithio'n effeithiol iawn gyda gweithwyr ieuenctid yr Urdd i helpu dros 600 o bobl ifanc i gael ystod eang o gyrsiau achrededig gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg.

At ei gilydd, mae'r coleg a'i bartneriaid yn trefnu darpariaeth dda i ddatblygu medrau dysgwyr. Ar y rhan fwyaf o raglenni, mae dysgwyr yn ymgymryd ag asesiadau cychwynnol i fesur eu lefelau llythrennedd. Mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi datblygiad medrau cyfathrebu a medrau llythrennedd dysgwyr yn dda, a lle bo'n briodol, maent yn eu cyfeirio at ddarpariaeth arall. Er enghraifft, mae lleiafrif o ddysgwyr mewn dysgu troseddwyr yn parhau â dosbarthiadau ar ôl iddynt gwblhau eu gorchmynion gydag Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Mae'r coleg yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth dysgwyr o (ADCDFE) trwy godi ymwybyddiaeth tiwtoriaid ynglŷn â sut i ymgorffori datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu haddysgu. Mae'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth dysgwyr o ADCDFE fel safbwynt cyfiawnder cymdeithasol a datblygu dinasyddiaeth.

**Addysgu: Rhagorol**

Mewn partneriaeth â'i diwtoriaid, mae'r coleg yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o'r dysgwyr a'r cyrsiau a addysgir. Mae gan y naill a'r llall ddisgwyliadau uchel o bob dysgwr. Mae pob tiwtor mewn dysgu troseddwyr yn datblygu perthynas ragorol gyda dysgwyr sy'n droseddwyr ac maent yn dangos empathi at sefyllfaoedd bywyd y dysgwyr mewn dosbarthiadau, sydd weithiau'n heriol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang ac effeithiol o weithgareddau i ysgogi meddwl a datblygiad dysgwyr. Mewn llawer o achosion ar y cyrsiau gwaith ieuenctid, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall pa weithgareddau y gall gweithwyr ieuenctid eu defnyddio yn eu gwaith trwy ennyn diddordeb y dysgwr yn y gweithgaredd, a thrafod y dysgu a rhinweddau'r gweithgaredd ei hun. Mae tiwtoriaid yn gweithio gyda'i gilydd

yn dda a chyda'r coleg i rannu ac ychwanegu at ddeunyddiau a gweithgareddau. Mae llawer o diwtoriaid yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau cyfathrebu a llythrennedd dysgwyr yn briodol i'r lefel ysgrifennu ofynnol a'r rôl broffesiynol y mae rhai dysgwyr yn hyfforddi ar ei chyfer. Bron ym mhob achos, mae tiwtoriaid yn rhoi gwaith i ddysgwyr sy'n herio ac yn ymestyn eu meddwl neu'u datblygiad medrau yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn gwneud defnydd da o asesiadau cychwynnol a chynlluniau dysgu unigol. Maent yn adolygu gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ffurfiannol da iddynt. Maent yn helpu dysgwyr i osod targedau priodol ar gyfer datblygu ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd, ac yn darparu adborth o ansawdd uchel.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r coleg yn hyrwyddo iechyd a diogelwch yn dda iawn. Mae ei swyddog iechyd a diogelwch yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i sicrhau bod lleoliadau yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch. Mae pob dysgwr sy'n droseddwr yn cwblhau uned waith ar iechyd a diogelwch cyn dechrau cyrsiau mewn gweithdai neu mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd da iawn i ddysgwyr sy'n droseddwyr wella eu dealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch. Mae cyrsiau gwaith ieuenctid yn rhoi sylw da i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o weithio diogel yn ogystal â materion diogelu.

Dywed naw deg wyth y cant o ddysgwyr fod y coleg yn darparu gwybodaeth dda iawn am gyrsiau a'i fod yn rhoi cymorth da ynglŷn â beth i'w wneud pan fydd dysgwyr wedi gorffen eu cyrsiau. Yn benodol, mae'r coleg ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn gweithio'n sensitif ac yn effeithiol iawn gyda'i gilydd i roi cyngor a chymorth cyfannol i ddysgwyr sy'n agored i niwed er mwyn iddynt allu nid yn unig ennill cymwysterau, ond hefyd wneud dewisiadau pwysig a all newid a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r coleg yn rhoi arweiniad ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr ynglŷn â'r hyn y mae'r cyrsiau'n ei gynnwys a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael. Mae hefyd yn rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ynglŷn â ble gallant gael cymorth ychwanegol ar gyfer medrau sylfaenol. Mae'r coleg yn gweithio'n dda iawn gyda'i bartneriaid, gan ddarparu cyllid ac offer i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn un enghraifft arloesol, mae'r coleg yn darparu tabledi cyfieithu electronig ar gyfer dysgwyr Tsieineaidd er mwyn iddynt allu mynegi eu hunain yn glir yn Saesneg.

Mae gan y coleg bolisi a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu.

### Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae gan y coleg ethos sy'n wirioneddol gynhwysol a'r dysgwr sydd wrth wraidd holl weithgareddau'r staff. Mae gan bob un o staff y coleg ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i weithio er lles dysgwyr. Mae staff y coleg wedi ymrwymo'n frwd i ddarparu cyrsiau o ansawdd da sy'n bodloni anghenion dysgwyr, a'u datblygu'n dda. Mae ystod lawn o bolisïau ar waith, ac mae staff yn eu deall yn dda iawn ac yn eu rhoi ar waith bob dydd. Mae'r coleg yn mynd ati'n effeithiol iawn i herio rhwystrau rhag

dysgu ac yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag anghenion dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae staff y coleg yn gweithio'n barhaus i greu a gwella'r amgylchedd dysgu a'r dysgu yn effeithiol iawn. Mae'r adnoddau dysgu yn dda iawn. Mae gan bob un o'r dysgwyr lyfrau gwaith wedi'u cyflwyno'n dda, sy'n hawdd eu defnyddio a deunyddiau dysgu clir a chydlynus. Mae bron yr holl adeiladau yn addas at eu diben ac o fewn pellter teithio addas i ddysgwyr.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae amcanion strategol a chynlluniau gweithredol y coleg wedi'u hamlinellu'n dda ac yn ysgogi cyfeiriad y coleg yn effeithiol. Mae'r cynlluniau yn defnyddio gwybodaeth a dadansoddiad data o ansawdd da gan arweinwyr a staff y coleg, ac yn canolbwyntio'n dda iawn ar anghenion dysgwyr a'r gymuned ehangach.

Ceir llinellau cyfrifoldeb clir iawn, a strwythur rhagorol o gyfarfodydd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff. Mae pob un o'r staff yn defnyddio mewnrwyd y coleg yn rheolaidd i wirio data a gwybodaeth arall, rhannu cyflawniad presennol o ran targedau a monitro unrhyw amrywiad mewn perfformiad.

Mae gan y coleg gynlluniau clir ar gyfer y dyfodol. Mae pob un o'r llywodraethwyr, yr arweinwyr a'r staff wedi cymryd rhan yn ystyrlon ym menter 'Future Directions'. Adolygiad manwl a thrylwyr o weithrediad y coleg yw'r prosiect hwn. Mae'n canolbwyntio ar ddysgwyr a'r modd y mae angen i'r coleg ddatblygu i ddarparu mwy o gyfleoedd ar eu cyfer. Mae'r fenter hon yn ychwanegu at brosesau cynllunio strategol a gweithredol arferol y coleg.

Mae gan bob un o'r staff ddisgrifiadau swydd clir ac effeithiol iawn ac maent yn deall eu rolau swydd yn dda iawn. Ceir cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol rhagorol ar draws y coleg. Mae arweinwyr yn dylanwadu ar, ac yn cynnal y diwylliant cryf ar gyfer gwella ansawdd yn barhaus. Mae gwaith tîm a morâl y staff yn dda iawn ac fe geir lefelau uchel o ymddiriedaeth. Mae arweinwyr a staff yn hapus i weithredu'n hyblyg y tu allan i'w rolau swydd yn ystod eu tasgau dyddiol, yn enwedig pan fydd o fudd i ddysgwyr.

Mae llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o weithrediad y coleg a pherfformiad pob un o'r dysgwyr. Mae arweinwyr a staff y coleg yn hysbysu llywodraethwyr yn dda iawn. Daw llywodraethwyr o gymysgedd eang o gefndiroedd ac mae ganddynt fedrau sy'n helpu'r coleg i gynllunio a monitro ei ddarpariaeth yn dda. Maent yn deall yr heriau sy'n wynebu'r coleg yn y dyfodol yn dda iawn, ac yn ymroddgar iawn yn eu cyfraniad at y coleg. Maent yn darparu her a chymorth priodol ac effeithiol ar gyfer pennaeth y coleg a staff eraill.

Mae arweinwyr a staff y coleg yn ymateb yn dda iawn gyda phartneriaid i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, trwy ei gysylltiadau â rheolwyr gwaith ieuenctid, mae'r coleg wedi arwain datblygu llwybr dilyniant gwell ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuenctid. Am y tro cyntaf, mae'r rhaglen hyfforddi hon yn galluogi llawer o weithwyr ieuenctid i ddechrau eu hyfforddiant ar lefel codi

ymwybyddiaeth. Maent wedyn yn symud trwy hyfforddiant ymsefydlu, i gyrsiau lefel 2 a lefel 3. Ar y cyd â dwy brifysgol yng Nghymru, mae’r coleg wedi sefydlu llwybrau dilyniant llawer gwell i addysg uwch ar gyfer dysgwyr sy’n weithwyr ieuenctid. Mae bellach yn symlach i’r dysgwyr hyn symud ymlaen i lefel gradd.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae’r adroddiad hunanasesu (AHA) a’r cynllun datblygu ansawdd (CDA) yn eang eu cwmpas ac mae pob un o’r staff a’r llywodraethwyr yn cymryd rhan yn llawn yn eu paratoi. Mae’r AHA yn glir, wedi’i gyflwyno’n dda ac yn hunanfeirniadol, ac yn gwneud defnydd rhagorol o ddata pryd bynnag y bo’n briodol. Mae’n llywio’r CDA yn dda i gynhyrchu pwyntiau gweithredu targedig defnyddiol. Mae’r canfyddiadau a gynhwysir yn yr AHA yr un fath â rhai’r tîm arolygu. Fodd bynnag, nid yw’r coleg yn sylweddoli ei ansawdd yn llawn ac adlewyrchir hyn yn y barnau a gynhwysir yn yr AHA.

Mae’r coleg yn cynnal grwpiau ffocws dysgwyr effeithiol iawn trwy gydol y flwyddyn ar gyfer gwahanol setiau o ddysgwyr. Mae’r coleg yn talu costau ar gyfer dysgwyr y mae angen iddynt deithio ymhell i gymryd rhan yn y grwpiau hyn. Gall dysgwyr eraill bob amser roi sylwadau trwy gyfryngau ar-lein amrywiol. Yn ddiweddar, penododd y corff llywodraethol ddysgwr fel llywodraethwr i roi mwy o syniad o safbwyntiau dysgwyr ar lywodraethu’r coleg. Mae’r coleg yn cynnal arsylwadau systematig o sesiynau tiwtoriaid. Rhoddir barnau i’r arsylwadau hyn am ansawdd cynnydd dysgwyr a pherfformiad tiwtoriaid. Mae canlyniadau o’r sesiynau hyn yn bwydo’n effeithiol i gyfarfodydd goruchwylio misol, adolygiadau rhaglenni a gwerthusiadau staff, ac maent yn llywio anghenion hyfforddi staff yn dda. Mae’r coleg yn barnu bod y rhan fwyaf o’i diwtoriaid yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw barnau ar ffurflenni arsylwi bob amser yn cyd-fynd â’r sylwadau a wnaed wrth ddisgrifio’r sesiwn a welwyd. Mae’r geiriad yn y ffurflenni arsylwi yn awgrymu y gallai’r farn fod wedi bod yn rhagorol yn hytrach na da.

Mae’r coleg yn defnyddio’i fewnrwyd yn dda i fonitro ei CDA. Mae’n defnyddio cynllun gweithredu’r CDA yn ddyddiol fel cyfrwng i ysgogi gwelliant i ddysgwyr. Mae pob un o’r staff rheoli yn gwneud defnydd da o’r cynllun gweithredu hwn i gael gwybodaeth am safonau, tueddiadau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r defnydd da o’r system hon dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn gyfrwng hanfodol wrth wella a chynnal safonau uchel yn y coleg yn barhaus.

Mae rheolwyr yn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i is-bwyllgor cwricwlwm ac ansawdd y corff llywodraethol. Mae’r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth ragorol am ansawdd ar bob lefel o’r coleg.

Mae’r coleg wedi ymateb yn dda iawn i’r argymhellion o’r adroddiad arolygu diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae’r coleg yn cysylltu’n dda iawn â phartneriaid mewn dysgu troseddwyr a gwaith ieuenctid, gan gynnal cysylltiadau gyda thros 30 o sefydliadau mewn awdurdodau lleol a rhai yn y trydydd sector fel ei gilydd. Datblygwyd llawer o’r partneriaethau hyn dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn rhan o’r prosesau

rheoli strategol trwy aelodaeth o weithgorau ac mewn rhai achosion, fel llywodraethwyr y coleg. Mae'r coleg yn defnyddio profiad a gwybodaeth ei bartneriaid yn dda. Mae partneriaid yn cyfrannu'n sylweddol at gyfeiriad a datblygiad y coleg i'r dyfodol.

Mae'r coleg wedi gweithio am sawl blwyddyn gyda'i bartneriaid i gyflwyno rhaglenni dysgu ar lefelau amrywiol ar gyfer gweithwyr ieuenctid a dysgwyr sy'n droseddwyr a dysgwyr yn y gymuned. Gwna ddefnydd da o diwtoriaid arbenigol o blith ei staff ei hun, ac o blith tiwtoriaid mewn sefydliadau partner. Mae'r coleg hefyd yn elwa ar weithio gyda phartneriaid sy'n darparu cyfleoedd lleoliad i lawer o ddysgwyr i'w helpu i gasglu tystiolaeth o'r medrau y maent yn eu caffael. Mae hyn yn cynnal sylfaen gost isel sy'n galluogi'r coleg i ddarparu mwy o raglenni ar gyfer mwy o ddysgwyr. Gwna'r coleg ddefnydd da iawn o safleoedd partneriaid i gyflwyno rhaglenni. Mae swyddog iechyd a diogelwch y coleg yn gwirio addasrwydd y safleoedd hyn yn systematig.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau yn dda iawn ac yn defnyddio gwybodaeth feincnodi'n dda i fonitro perfformiad ariannol. Mae'n defnyddio cyfran briodol o'i incwm nad yw'n ymwneud â'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) i gynnal polisi 'dim ffi', a gwneud yn siŵr bod mwy o ddysgwyr yn gallu defnyddio rhaglenni'r coleg, yn enwedig y rhai sy'n profi lefelau uchel o amddifadedd ariannol a chymdeithasol. Oherwydd rheolaeth lem y coleg dros wariant, nid yw gostyngiadau yng nghyllid yr AdAS yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr.

Mae'r coleg yn cynnal dadansoddiadau cost manwl ar gyfer pob un o'i raglenni. Mae hyn yn golygu y gall y coleg sefydlu hyfywedd cyrsiau unigol yn gyflym. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddoeth i wneud penderfyniadau rheoli am gyflwyno rhaglenni. Gwna rheolwyr ddefnydd da iawn o ddata i wneud penderfyniadau priodol am y rhaglenni y maent yn eu rhedeg, a gallant sicrhau cydbwysedd rhwng penderfyniadau am ddiddymu cyrsiau yn dda iawn. Maent nid yn unig yn defnyddio niferoedd y dysgwyr sy'n mynychu unrhyw gwrs i benderfynu ar ba gyrsiau na ddylid eu cynnal, ond hefyd effaith diddymu cyrsiau ar gymhelliant dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod cydbwysedd da yn niferoedd y dysgwyr ar draws y ddarpariaeth gyfan, ac fe gaiff llawer o ddysgwyr sy'n agored i niwed eu hatal rhag methu cwblhau eu dysgu ac ennill eu cymhwyster. Wedyn, mae'r coleg yn gweithredu i dalu cost y ddarpariaeth. Mae gwybodaeth o feincnodi costau staff yn dangos bod cost oriau staff yng Ngholeg Cymunedol YMCA Cymru yn cymharu'n dda iawn â chyfartaleddau'r sector.

Mae'r coleg yn cynnal cynlluniau ystyrlon, â chostau ynghlwm wrthynt, ar gyfer cynnal safonau uchel ei adeiladau. Mae hefyd yn elwa'n fawr trwy weithio gyda phartneriaid a defnyddio adeiladau partneriaid i gyflwyno cyrsiau. Ceir digon o staff cymwys a phrofiadol i gyflwyno a gweinyddu'r rhaglenni, ac mae'r coleg yn defnyddio staff yn effeithlon. Mae rheolwyr yn chwilio am ffyrdd o rannu costau staff gyda sefydliadau tebyg eraill. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn rhannu swyddog iechyd a diogelwch gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (De).

Mae cyfarfodydd goruchwylio misol, arsylwadau sesiynau a gwerthusiadau blynyddol yn llywio’r rhaglen gorfforaethol ar gyfer datblygu staff yn dda. Mae’r staff hefyd yn rhoi llawer o ganmoliaeth i’r rhaglen hon ar gyfer datblygu staff. Mae pob un o staff y coleg, trwy gynllun talebau, yn cael cyfle i ddatblygu anghenion datblygu eu staff unigol yn ogystal â rhaglen datblygu staff y coleg.

At ei gilydd, mae’r coleg yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Cynhaliodd Estyn arolwg o’r dysgwyr yn union cyn yr arolygiad o’r bartneriaeth. Llenwyd holiaduron gan dri chant saith deg wyth o ddysgwyr.  Fe wnaeth y canfyddiadau helpu Estyn i gael syniad o farn dysgwyr a’u profiad o’r ddarpariaeth a gyflwynir gan y coleg ar hyn o bryd.

Roedd bron pob un o’r dysgwyr yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y coleg yn rhoi gwybodaeth dda iddynt pan oeddent yn dewis eu rhaglenni dysgu.  Cytunodd bron pob un o’r dysgwyr hefyd fod y staff yn dangos parch atynt ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a’u pryderon.

Dywed bron pob un o’r dysgwyr fod staff yn rhoi adborth defnyddiol am eu gwaith a’r hyn y mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella.

Dywed ychydig iawn o ddysgwyr nad ydynt yn cael cyfleoedd a chymorth i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Enid Hankins | Arolygydd Cofnodol |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Brenda Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cefin Campbell | Arolygydd Ychwanegol |
| Margaret Jones | Enwebai'r Darparwr |